PAPUR WYTHNOSOL YR ANNIBYNWYR CYMRAEG

Y TYST

Sefydlwyd 1867 Cyfrol 149 Rhif 17 Ebril 21, 2016 50c.

Dathlu'r Atgyfodiad yn Nefyn

Wedi stormydd y dydd Sadwrn, daeth heulwen i wenu ar Orymdaith y Pasg, Nefyn 2016. Cychwynnwyd y daith yn Eglwys Dewi Sant dan arweiniad y ficer, y Parchg Richard Wood, a ofynnodd a ydym weithiau yn digalonni wrth weddïo? Sut felly oedd Iesu'n teimlo wrth weddïo yn yr ardd? Dechreuodd yr Orymdaith o gwmpas yr Eglwys i weld golygfeydd arwyddocaol y Pasg oedd wedi'u hail-greu yno - yr Oruwch Ystafell, Gardd Gethsemane, Llys Peilot, y Groes a'r Bedd Wag. Da oedd deall bod nifer o blant wedi cael y profiad o ail-fyw'r Pasg yn yr Eglwys yn ystod yr wythnos.

Cân Hosanna

Croesi o'r Eglwys at Gapel Soar a gwasanaeth byr yn ein hatgoffa o dristwch ac anobaith y Groglith. Ymlaen at Groes Nefyn a'r plant yn ein harwain i ganu "Cân Hosanna" i gyfeiliant gitâr Richard Wood. Bu rhai oedd yn mynd heibio yn edrych arnom yn ddigon amheus! Ond braf oedd cael tystio gwir arwyddocâd y Pasg yn gyhoeddus yng nghanol y dreflan.

Buddugoliaeth

Cafwyd cyfle i ddathlu buddugoliaeth Sul y Pasg mewn gwasanaeth Cymun yng Nghapel Isaf dan ofal y Parchg R. O. Roberts, gweinidog y Capel a'r Parchg Richard Wood. Cyn y Cymun bu Mr. Roberts yn cyfarch y plant ac yn creu awyrennau papur oedd yn hedfan reit dda (y plant a rhai hŷn di gwirioni!) Ond os torrwyd darn o'r awyren, buan y plymiodd i'r ddaear. Yn gelfydd iawn wedi agor awyren oedd wedi colli darn, siâp y Groes a welwyd. Er i ni fethu ar sawl cyfrif - cawn faddeuant a chymorth yng ngrym Iesu a aberthwyd ar y Groes.

Daeth pawb o'r Capel wedi cael bendith a chroes balmwydd i gofio Sul y Pasg 2016. Yn dilyn yr orymdaith cafwyd gwahoddiad i ymuno yn "Eglwys i bawb" wedi'i drefnu gan aelodau Eglwysi'r Cylch yng Nghanolfan Nefyn. Dyma gyfle i gymdeithasu dros baned a'r plant yn cael nifer o weithgareddau dan arweiniad y ficer a'i wraig Naiomi. Braf oedd gweld teuluoedd ifanc yno ac yn tystio i wir ystyr y Pasg.

Janet Wyn Hughes

Hope-Siloh Pontarddulais

Clwb Babanod

Bob bore Mercher yn festri Capel Hope-Siloh daw rhyw 25 o fabanod a'u rhieni ynghyd i ganu rhigymau a chwarae yn y Gymraeg. Dyma fenter sydd wedi llwyddo yn sicr a gwelir nifer o'r babanod a'u rhieni yn mynychu gwasanaethau arbennig y capel a'r ysgol Sul. Mae cefnogi'r Banc Bwyd lleol yn fenter sy'n cael ei chefnogi yn hael iawn gan aelodau'r Capel ac mae'r Clwb Babanod hefyd yn sylweddoli pa mor bwysig yw cefnogi teuluoedd sydd angen cymorth yn ein cymuned. Yn y llun gwelir y plant bach yn dal yn dynn at eu cyfraniadau. Diolch yn fawr iddynt.

Sul y Blodau

Ar fore Sul y Blodau cafwyd gwasanaeth bendithiol iawn o dan ofal ein gweinidog y Parchg Llewelyn Picton Jones ac oedolion ifanc y capel. Yn ystod y rhan cyntaf o'r gwasanaeth fe gyflwynodd ein gweinidog hanes bywyd yr Iesu o Sul y Blodau hyd at Sul y Pasg gan gyfeirio at arwyddocâd y groes palmwydd a'r wyau Pasg a gyflwynwyd i'r plant a'r bobl ifanc. Roedd ail hanner y gwasanaeth yng ngofal yr oedolion ifanc a chafwyd bendith fawr o'u cyflwyniadau perthnasol. Diolch i Gwen Jones am gydlynu ail hanner y gwasanaeth ac i Eric Jones am ei gyfraniad cerddorol ysbrydol yn ôl yr arfer.

Jennifer Clarke

ETHOLIAD CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU 2016

NODIADAU BRIFFIO TLODI

Yng Nghyngor y Gwanwyn penderfynodd Adran Dinasyddiaeth Gristnogol Undeb yr Annibynwyr Cymraeg mai da o beth fyddai cyflwyno gwybodaeth i ddarllenwyr y Tyst fyddai'n berthnasol i etholiad y Cynulliad ar y 5ed o Fai. Felly aeth 3 o'r Adran ati i grynhoi nodiadau briffio Cytûn ar gyfer yr etholiad. Dyma'r ail o dair erthygl, y mae hon yn ymwneud â thlodi.

Glenys Jones

Mae tua 700,000, sef 23%, o bobl Cymru'n byw ar incwm sy'n is na'r ffin tlodi gymharol. Dyma'r ganran uchaf o 12 rhanbarth y DU (heblaw Llundain). Y grŵp mwyaf tebygol o ddioddef yw plant (31%) a'r lleiaf tebygol yw pensiynwyr (14%). Dywedir bod tua 200,000 o blant yn dioddef ac yn debygol o dderbyn llai o gymwysterau, bod mewn swyddi cyflog isel a dioddef mwy o afiechyd a marw'n ifanc. Sylweddolir gan eglwysi ac elusennau bod yma broblem enfawr. Gwelwyd newidiadau dybryd y blynyddoedd diwethaf:

1. Lleihad mewn tlodi ymhlith pensiynwyr oherwydd cynnydd ym mhensiynau'r Wladwriaeth a budd-daliadau.
2. Gan fod economi cyflogau is na gweddill y DU yng Nghymru, mae tuedd at dlodi hir dymor mewn gwaith. Mae bron i 2/3 o blant a 1/2 oedolion (oed gweithio) "tlawd" yn aelodau o deuluoedd sy'n gweithio. Prin yw'r swyddi sy'n cynnig oriau gwaith rheolaidd a hir. Cyfyngir ar oriau gwaith oherwydd problemau meddygol neu gyfrifoldebau gofal. Rhieni ac oedolion ifanc sy'n dioddef fwyaf.
3. Ers 2011, amcangyfrifir bod teuluoedd Cymru wedi colli £900 miliwn y flwyddyn oherwydd gostyngiad mewn budd-daliadau. Mae ychwaneg o ostyngiadau'n debygol eto.
4. Oherwydd diffygion prosesu, sancsiynau budd-dal a chynnydd yn yr amser aros (o leiaf 6 Wythnos) am y taliad cyntaf, Ceir cyfnodau hir heb incwm. Dibynnir yn aml ar fanciau bwyd ac elusennau.
5. Effaith lliniarol bach iawn a gaiff trothwyon treth incwm uwch a'r cynnydd arfaethedig yn yr isafswm cyflog i'r rhai sydd ar gyflogau isel.

Cynllun Gweithredu.

Er mai San Steffan sy'n bennaf gyfrifol am bolisïau trethiant a budd-daliadau, mae gan y Cynulliad lawer o bwerau all effeithio ar dlodion Cymru. Sefydlwyd Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi, gan ganolbwyntio ar 52 o ardaloedd difreintiedig.

Rhoddir sylw i:

1. raglenni i wella canlyniadau addysgol, gan gynnwys cymorth ar gyfer y blynyddoedd cynnar.
2. gynorthwyo ieuenctid i gael gwaith.
3. gynorthwyo gyda chyllidebau teuluol trwy gadw gwerth Budd-dal Treth y Cyngor yng Nghymru.
4. sicrhau bod teuluoedd yn hawlio'u budd-daliadau.
5. lleihau tlodi tanwydd trwy ddefnyddio ynni'n effeithiol a thrafod â chyflenwyr.
6. hybu undebau credyd a chynghori ynghylch dyled.

Cwestiynau i'w gofyn:

1. Beth ddylai ymateb Cymru fod i'r cwtogi ar fudd-daliadau ?
2. A fydd cydbwysedd cywir rhwng cynorthwyo'r tlawd a gofal ac addysg a seilwaith?
3. Sut all Llywodraeth nesaf Cymru atal y dirywiad tuag at gyflogaeth lai sefydlog â chyflogau isel?

Glenys Jones

TRAFOD YSGOLION, YSBYTAI A MWY YN PHILADELPHIA

Ni ddylai ysgol newydd yn Sir Gâr fod yn un enwedol. Dyna farn Annibynwyr Gorllewin Caerfyrddin mewn Cwrdd Chwarter yn Philadelphia, Nantycaws fis dwetha. Mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn trafod cau ysgolion Llanmeilo, Tremoilet a Thalacharn gan greu ysgol eglwys yn Nhalacharn. Yn dilyn trafodaeth drylwyr cytunwyd cadw at ein polisi o fynnu fod pob ysgol yn anenwadol ac i gysylltu gyda'r Cyngor i fynegi ein barn. Mae hyn yn dilyn sefyllfa debyg yn Sir Benfro, lle mae'r Cyfundeb yno wedi mynegi gwrthwynebiad i'r cynllun i sefydlu ysgol eglwysig.

Parcio yn Ysbyty Glangwili

Gall cael lle i barcio yn Ysbyty Glangwili yn ystod cyfnodau prysur fod yn ben tost! O ganlyniad mae nifer sylweddol o bobl yn hwyr neu'n colli apwyntiadau mewn clinigau yn yr ysbyty brysur hon. Nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi cadw at eu haddewid i ddarparu 40 o lefydd parcio ychwanegol erbyn Mawrth 1af. Cytunwyd anfon llythyr i bwyso arnynt i wella'r sefyllfa.

Ystod o Faterion

Trafodwyd ystod o faterion eraill yn y Cwrdd Chwarter, o dan gadeiryddiaeth Mel Jenkins (yn y llun). Agorwyd yn y prynhawn trwy ddarlleniad gan Gerwyn Williams a gweddi gan Lynette Jones**.** Derbyniwyd gwahoddiad gan yr Undeb i ni enwebu Is-lywydd a Thrysorydd. Cytunwyd i enwebu Jeffrey Williams fel is-lywydd a Meryl James fel Trysorydd.

Olrhain hanes eglwys Philadelphia yn ei bro

Adroddodd Lynette Jones fod yr achos wedi dechrau ar fferm Beulah Fawr ar ddiwedd y 18fed ganrif. Yno y buont yn cwrdd tan 1809. Rhoddwyd tir i godi'r capel presennol gan John Nichols, gwerthwr gwin yng Nghaerfyrddin. Mae'r achos yn mynd o nerth i nerth ac wedi cael deuddeg gweinidog dros y blynyddoedd.

Swyddogion y Cyfundeb

Etholwyd Annalyn Davies yn Ysgrifennydd Cenhadol. Trefnwyd llythyr o ddiolch i Carol Evans. Bydd angen penodi rhywun newydd i fod yn gyfrifol am y Rhaglen Ddatblygu erbyn mis Medi. Gofynnwyd am enwau i fod yn gyfrifol ar gyfer y gronfa gweddwon.

Adroddiad M.I.C.

Canmolwyd gwaith M.I.C. yn fawr gan Beti-Wyn James ac anogodd mwy o gapeli i ymuno yn y fenter.

Adroddiad Sul Sbesial

Bydd yr achlysur arbenning hwn yn digwydd yn Ysgol Bro Myrddin am 10.30 ar Gorffennaf 10, gydag Arfon Jones yn ŵr gwadd. Ymddiheurodd Guto Llywelyn i Gapel Bwlchnewydd am fod y Sul Sbesial nawr yr un amser â'u Cyrddau Blynyddol. Datganodd cynrychiolydd o Fwlchnewydd y bydd eu cyrddau blynyddol yn symud i'r trydydd Sul yng Ngorffennaf o 2017 ymlaen.

Cyflwyniad Robin Samuel

Croesawyd Robin Samuel yn gynnes gan y cadeirydd a wnaeth ein hatgoffa o

parhad ar y dudalen gefn

Barn Annibynnol

Anghrediniaeth, gad fi'n llonydd

Dyma gariad fel y moroedd?
Tosturiaethau fel y lli?
Gadael plentyn bach i farw
Wrth ddod drosodd aton ni!

Derwyn Morris Jones

Cyhoeddwyd yr aralleiriad hwn o linellau cyntaf emyn mawr Gwilym Hiraeth-og ym mhapur bro Rhosllannerchrugog, NENE, islaw y llun o'r Syriad bach tair blwydd oed, Aylan Kurdi, yn cael ei gludo'n farw ym mreichiau milwr ar un o draethau gwlad Groeg. Mae'r darlun tristach na thristwch hwnnw wedi cyffwrdd calonnau a chydwybod miloedd lawer ar ein cyfandir, ac yn para i'n haflonyddu. Ac un plentyn teirblwydd oed o blith miloedd ar filoedd o blant Syria sydd wedi colli eu bywyd yn sgil y rhyfel dieflig sydd wedi para am dros bum mlynedd bellach yn y wlad honno oedd ef. Colli eu bywyd naill ai yn y rhyfel ei hun, neu fel Aylan Kurdi a'i Fam a'i frawd hŷn Galip, pum mlwydd oed, wrth geisio dianc rhagddo , dros y môr i Ewrop.

Diawledigrwydd

Prin fod angen atgoffa darllenwyr *Y TYST* fod hunanoldeb a diawledigrwydd y natur ddynol ar eu gwaethaf yn gyfrifol am gymaint o'r dioddefaint sydd yn y byd. Pechod yw gair y Beibl amdano. Esgorodd anghyfiawnder a gormes llywodraeth yr Arlywydd Assad tuag at gynifer o ddinasyddion eu gwlad, ar y brotest heddychlon bum mlynedd yn ôl a droes yn wrthryfel gwaedlyd wrth i'r llywodraeth ddefnyddio'i grym milwrol i geisio mygu yn greulon pob protest. Aeth pethau o ddrwg i waeth. Y mae nifer o ddinasoedd a llu o drefi y wlad yn adfeilion. Amcangyfrifir erbyn hyn fod oddeutu pum miliwn o Syriaid yn ffoaduriaid, dwy filiwn ohonynt yn blant.
Ie, trachwant a thwyll y rhai mewn grym yn Syria, cynllwynion di-dostur *traffickers* â'u bryd ar elwa ar bob trychineb, eithafwyr crefyddol ynfyd yn honni bod yn Fwslemiaid da; hyn oll a mwy, a arweiniodd at orfod codi corff bach Aylan Kurdi a foddwyd ym môr y Canoldir wrth i'w rieni geisio dianc i ddiogelwch a gwell byd.

Cymwynas bod yn onest â'n gilydd

Yn wyneb hyn, a ydych yn gweld bai ar y bardd a feiddiodd mewn un papur bro, aralleirio pennill cyntaf emyn mawr Hiraethog - emyn mwyaf yr iaith Gymraeg ym marn Pennar Davies? Neu a ydych fel fi, yn gwerthfawrogi ei onestrwydd. Dichon fod sawl Cristion yng Nghymru heddiw â'i ffydd yn cael ei ysgwyd yn aml, a byddai'n dda pe baem yn fwy agored â'n gilydd am ein dryswch a'n amheuon. Y mae digonedd o brofiadau felly yn cael eu cofnodi yn Llyfr y Salmau. Diolch amdanynt.

Y boen sydd yn y byd

Y mae dioddefaint wedi bod yn rhan fawr o brofiad y mwyafrif o blant dynion drwy'r canrifoedd maith. "Rhodd enbyd yw bywyd i bawb" meddai un o gymeriadau Saunders Lewis. Y mae'n enbyd iawn i lawer iawn. Ni allwn ond synnu at ddygnwch a dewrder pobl o bob oed yn y gwledydd difreintiedig heddiw, miliynau ohonynt wedi eu hamddifadu o ddŵr glân, o wasanaeth meddyg ac ysbyty, yn dlawd a heb feddu fawr ddim o'r hyn a gymerwn ni yn ganiataol. Teuluoedd afrifed ar gyfandir Affrica ac mewn sawl gwlad yn Asia yn gorfod ceisio byw lle mae gormes a thrais yn gymdogion beunyddiol. Yr ydym ni wedi ein cysgodi rhag y blinderau hyn, er bod Gorllewin Ewrop y mae Cymru yn rhan ohono, yn dod fwy fwy yn darged terfysgwyr a'u brawychiaeth greulon, fel y profwyd ym Mharis a Brwsel, a Llundain cyn hynny.

Dichon fod llawer ohonom ynghanol ein digonedd, yn ymdeimlo â dryswch y "ddyrys daith" chwedl Pantycelyn, yn hyn o fyd. Anferthedd y greadigaeth ddiderfyn yn ôl pob son; yr oesoedd dirifedi a fu ac sydd eto i fod yn ôl pob tebyg, yn peri cur pen i ni! Ond ymddengys fod rhai ohonom yn bwrw'r cyfan sydd i eraill yn ddirgelwch, heibio. Digon yw crybwyll Beibl anffaeledig, a phwysleisio rhyw hen athrawiaeth neu'i gilydd, i chwalu pob dryswch ac amheuaeth. Sylwaf fod y wedd hon yn cael gofod teg yn ein papur wythnosol ac yn y Pedair Tudalen, ond rwy'n amheus a yw'n ddigonol i gwrdd â dwys gwestiynau dynol ryw.

Iesu, nid oes terfyn arnat

Yr wyf yn llunio'r ysgrif hon yn yr Wythnos Fawr sy'n cynnwys Nos Iau Cablyd a Gwener y Groglith a'r Sadwrn tywyll sy'n arwain at Sul y Pasg. Ond os digwydd i chwi ddarllen y Farn Annibynnol hon pan gewch gyfle, bydd Pasg cynnar eleni heibio, a hithau'n ganol mis Ebrill. Ond bydd yr Enw sydd goruwch pob enw i ni Gristnogion, yn aros. Ac erys tystiolaeth awduron y Testament Newydd fod **Iesu Grist** wedi byw, a dioddef ei groeshoelio, a marw, a'i gyfodi'r Trydydd Dydd.

Diolch byth amdano, oherwydd fel y gwyddai awdur anhysbys y Llythyr at yr Hebreaid: "gan gadw ein golwg ar Iesu, awdur a pherffeithydd ffydd" sydd hefyd yn "cyd-ddioddef â'n gwendidau" y gallwn fyw gyda'n cwestiynau, a threchu ein hofnau a'n amheuon**. Cymwynas fwya'r Beibl yw ei gyflwyno Ef i ni**. Anigonnol yw'r holl athrawiaethau a luniwyd i fynegi ei arwyddocâd. Yn wir, i mi y mae ambell athrawiaeth yn cymylu, yn hytrach na goleuo beth sy'n wir amdano. **Un peth sydd yn sicr, o'i blegid Ef caf ffydd i ddal i gredu, ar waethaf pob dryswch, fod Duw'r Creawdwr yn bod, ac mai ein Tad yr hwn sydd yn y nefoedd ydyw, ac mai Duw cariad yw.**

Darllenais eiriau trawiadol yn ddiweddar mewn ysgrif yn canmol rhyfeddod ein daear, rhodd Duw ym marn yr ysgrifwr. Ac meddai am yr Ymgnawdoliad: *" His incarnation brought him into his own gift, to feel it, smell it, and touch it."* Tystia'r pedair efengyl i'r rhyfeddod hwn. Ond cofiwn fod y ddaeargryn a'r tsunami, a pheryglon cynhenid tir a môr yn brofiad i lawer, fel y bu i rai miloedd o ffoaduriaid, gan gynnwys Aylan Kurdi a'i frawd a'u Mam.

Os ydym am dystio yn hyn o fyd i newyddion da o lawenydd mawr ar waethaf popeth all ddod i gwrdd â ni, ac i ryfeddod di-ddarfod cael Duw Anweledig a Sanctaidd yn agos atom yn Iesu Grist, oni raid gwneud hynny yn ostyngedig, gan osgoi cyflwyno'r argraff di-sail fod gennym yr ateb i bob cwestiwn a dryswch?

Derwyn Morris Jones

(Nid yw cynnwys y Barn Annibynnol o reidrwydd yn adlewyrchu safbwynt Undeb yr Annibynwyr na'r tîm golygyddol.)

Penderfyniadau

Cyfarfodydd Blynyddol 2016

Os oes cyfundebau, eglwysi neu aelodau personol o'r Undeb sy'n dymuno cyflwyno penderfyniad i Gynhadledd y Cyfarfodydd Blynyddol yn Llanuwchllyn ym mis Mehefin/ Gorffennaf, mae gofyn i gopi o'r penderfyniad, wedi ei lofnodi gan y cynigydd a'r eilydd, gyrraedd Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc Busnes Glanyrafon, Bro Abertawe, Abertawe SA7 0AJ, erbyn dydd Gwener, 13 Mai 2016, os gwelwch yn dda.

Geraint Tudur, Ysgrifennydd Cyffredinol

CYFARFOD RHWYDWAITH MERCHED

Festri Capel Seion, Baker Street, Aberystwyth, nos Fercher, Mai 11.

Lluniaeth ysgafn am 6.00
a'r cyfarfod am 6.30.

Byddwn yn trafod thema'r flwyddyn hon, ac yn gosod thema ar gyfer y flwyddyn nesaf.

Os hoffech mwy o fanylion, cysylltwch â'r swyddfa yn Nhŷ John Penri, neu â Rhodri ar 01792 795888

Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:
Y Parchg Ddr Alun Tudur
39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan, Caerdydd, CF23 9BS
Ffôn: **02920 490582**
E-bost: **aluntudur@btinternet.com**

Golygyddion
Y Parchg Iwan Llewelyn Jones
Fronheulog, 12 Tan-y-Foel, Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9UE
Ffôn: **01766 513138**
E-bost: **IwanLlew@aol.com**

Alun Lenny
Porth Angel, 26 Teras Picton Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX
Ffôn: **01267 232577 / 0781 751 9039**
E-bost: **alunlenny@hotmail.co.uk**

Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:
Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc Busnes Glanyrafon, Bro Abertawe ABERTAWE SA7 0AJ
Ffôn: **01792 795888**
E-bost: **undeb@annibynwyr.org**

Dalier Sylw!
Cyhoeddir y Pedair Tudalen Gydenwadol gan Bwyllgor Llywio'r Pedair Tudalen ac nid gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a wnelo Golygyddion *Y Tyst* ddim â chynnwys y Pedair Tudalen.

TRAFOD YSGOLION, YSBYTAI A MWY YN PHILADELPHIA - *parhad*

gysylltiad Robin gyda'r Cyfundeb. Cafwyd anerchiad ardderchog gan Robin yn sôn am natur ei waith a'i fwriadau a'i obeithion ar gyfer y dyfodol. Anogwyd pawb i anfon oedfaon sydd ganddynt iddo fel y gellir eu rhannu ar lefel ehangach. Gorffennodd gyda galwad ddwbl Duw i Abraham. Yn gyntaf DOS - i adael yr hen ffordd o wneud pethau ar ôl. Ac yn ail DERE - i fentro â neges Duw i feysydd newydd gan wybod y bydd Duw gyda ni ac yn ein harwain.

Cwrdd Chwarter Bwlchnewydd, 12 Mai (4.00 a 7.00) Croesawyd ni'n gynnes i Fwlchnewydd gan Tudor Rees.

Croeso Philadelphia: Croesawyd pawb i fwyd yn Neuadd Llanddarog.

Cymun yr Annibynwyr

Ar ôl i'r Parchg Beti-Wyn James ein harwain trwy ddarlleniad a gweddi, neilltuwyd gweddill cyfarfod y prynhawn i glywed anerchiad buddiol a diddorol gan y Parchg Aled Jones ar y Cymun.

Cafwyd hanes y cymun drwy'r canrifoedd. Soniodd fod nifer o draddodiadau wedi tyfu o gwmpas y cymun a oedd yn aml yn ddim mwy nag ofergoelion. Ymhlith y rhain roedd y Cwrdd Paratoad, aelodau yn unig i dderbyn y cymun, gweinidog yn unig i weinyddu'r cymun, dim cymun i blant ac eistedd i ganu'r emyn ar ôl y cymun. Roedd hi'n bwysig cofio, meddai, mai gwledd y teulu oedd y cymun - sef teulu'r eglwys. Fe'i sefydlwyd gan Iesu i ni gael maeth ysbrydol ar gyfer taith bywyd. Cafwyd trafodaeth frwd i ddilyn. Anogir aelodau i fynychu tri gweithdy ar y cymun sydd i'w cynnal yng Nghaerfyrddin (gweler hysbyseb).

Diolchwyd i bawb a gyfrannodd mewn unrhyw ffordd at ddiwrnod buddiol a llawen gan Guto Llywelyn. Daeth y diwrnod i ben trwy fendith gan y cadeirydd Mel Jenkins.

Gweithdai Gweinyddu'r Cymun
gyda'r Parchg Aled Jones
Agored i bob aelod
Ebrill 27, Mai 4 ac 11
Swyddfa Coleg yr Annibynwyr, 32 Heol Las, Caerfyrddin (uwchben siop yr Honeypot).
Dyma gyfle rhy wych i'r golli! Os am fwy o fanylion, ffoniwch 01267 229167.

MUDIAD CHWIORYDD YR ANNIBYNWYR

Adran Dwyrain Caerfyrddin a Brycheiniog

Cynhelir y

CYFARFOD BLYNYDDOL

yng Nghapel Gellimanwydd, Rhydaman.

Nos Fawrth 26 Ebrill 2016
am 7.00 o'r gloch

Cyflwyniad: Y Ffoaduriaid
Siaradwr: Y Parchg Aled Edwards

Llywydd: Mrs Esme Lloyd
Ysgrifennydd: Miss Ann Davies
Trysorydd: Mrs Eirlys Morgan

Pris y Rhaglen – 50c

Diwrnodau i Weinidogion Eglwysi Annibynnol y De a'r Gogledd

FESTRI CAPEL BETHANIA
TYMBL UCHAF, SA14 6ED

Dydd Mawrth, Ebrill 26
11.00 – 3.30

Gweinidogaeth y We
Sut mae manteisio ar y dechnoleg newydd?

Rhodri Darcy
Swyddog Hyrwyddo a Chyfathrebu'r Undeb

Adnoddau Wythnos Cymorth Cristnogol

Robin Samuel
Swyddog Cynnal ac Adnoddau De Cymru

CAPEL COFFA,
CYFFORDD LLANDUDNO
LL31 9HD

Dydd Iau, Ebrill 28
11.00 – 3.30

Gweinidogaeth y We
Sut mae manteisio ar y dechnoleg newydd?

Rhodri Darcy
Swyddog Hyrwyddo a Chyfathrebu'r Undeb

Datblygu Gweinidogaeth Galluogol

Casi M. Jones
Swyddog Cynnal ac Adnoddau Gogledd Cymru

Darperir cinio am ddim. Anfonwch e-bost at: *undeb@annibynwyr.org* neu ffoniwch Dŷ John Penri 01792 795888 cyn 22 Ebrill i sicrhau eich cinio.

Edrychwn ymlaen at groesawu'r gweinidogion i Fethania neu'r Capel Coffa.

CYSTADLAETHAU'R YSGOLION SUL 2016

CWPAN DENMAN
Rhodd Cyfundeb Lerpwl

Cywaith gweledol (poster, ffotograff, llun neu waith celf arall, yn mesur dim mwy na 4x3 troedfedd) ar y thema, 'Beibl i Bawb o Bobl y Byd'

TLYSAU CYFUNDEB LERPWL

Cystadlaethau siarad cyhoeddus i oed Blwyddyn 7-9 a 10-13.

Testun: 'Eglwys Crist y Ffoadur'

Y Cywaith ac/neu enwau'r cystadleuwyr ar gyfer y siarad cyhoeddus i gyrraedd

Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc Busnes Glanyrafon, Bro Abertawe, Abertawe, SA7 0AJ

erbyn

Dydd Gwener, 27 Mai os gwelwch y dda

Cyhoeddwyd gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ac argraffwyd gan Wasg Morgannwg, 27 Ystad Ddiwyd. Mynachlog Nedd, Castell-nedd, SA10 7DR. Cofrestrwyd yn y Swyddfa Bost.